

Don Llewellyn yn olrhain hanes teulu Y Bryantiaid

YNG nghyffiniau y Garth (saith milltir o ganol Caerdydd), mae tri phentref a gafodd glod haeddiannol am gadw eu Cymreictod pan oedd yr ardaloedd cylchynol yn cael eu boddi gan fôr o Seisnigrwydd yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif. Bu pobl Pentyrch, Gwaelod y Garth ac Efail Isaf yn enwog am eu sêl dros bopeth Cymreig – a hyn er gwaethaf agosrwydd y trefi Seisnig oddi amgylch. Hefyd bu'r tri lle yn gyfoethog iawn o ran doniau diwylliannol eu trigolion. Er bod y sefyllfa wedi dirywio erbyn hyn, mae sawl adlais o'n gorffennol brafiach yn dal i ganu yn ein clustiau. Mae rhai o'r brodorion hŷn yn parhau o hyd am eu harwyr, megis cantorion, beirdd gwlad a cherddorion o fri.

Hyd y gwn i, nid oedd casineb na chenfigen rhwng y tair cymuned, dim ond ychydig o ymrysona mewn eisteddfodau lleol. Denodd unrhyw lwyddiant ar y llwyfan ehangach ganmoliaeth i'r eithaf o pa bynnag bentref y deuai'r perfformiwr. Er enghraifft, roedd llawer o'm cenhedlaeth i ym Mhentyrch yn ystod fy mhlentynod yn argyhoeddedig taw Efail Isaf oedd y ganolfan fwyaf pwysig yn y byd i delynorion!

John Bryant 'Alawydd Glantaf'

Byddai teulu'r Bryantiaid o'r pentref hwnnw (milltir a hanner o Bentyrch ar ochr ogleddol y Garth) yn cael eu canmol i'r cymylau. I mi yr oedd enw Tom Bryant yn gyfystyr â'r ddyfais gerddorol sydd yn cael ei hystyried yn offeryn cenedlaethol Cymru. Hyd heddiw, ni allaf glywed sŵn melys tannau telyn heb feddwl am Tom. Erbyn fy amser i, roedd Tom yn tynnu 'mlaen mewn oedran a'r cof byw sydd gen i amdano yw yn eistedd ar y wal tu fas i'r dafarn ei hun, The Carpenter's Arms. Ni chlywais mo Tom yn canu'r delyn fy hun, oblegid bod yr offeryn wedi hen lithro o'i afael cyn imi gyrraedd oed cael hawl i fynychu tafarn. Ond er hynny, fe deimlais fy mod yn ei adnabod ef yn drwyadl oblegid y storiâu oedd wedi eu traddodi gan fy mherthnasau. Fe gefais fy magu ar straeon am orchestion fy nhadcu yng nghwmni Tom Bryant, ewythr John, ac aelodau eraill o'i lwyth. Adrodda un stori am Dic (Nhadcu) a'r telynor yn dychwelyd

o dafarn Arwydd y Glowr ryw noson serenog, a chael eu hwynebu gan darw ffyrnig. Ar amrantiad, llwyddodd y ddau i ddringo coeden dderw gyda'r delyn ar gefn Tom. Wedi eistedd ar gangen, tra'n gwylltio'r anifail oddi tanynt, dyma Tom yn dechrau canu hwyrgan a fyddai'n addas i deirw! Awr yn hwyrach, ac yn fodlon â'r serenad gan Dic, y tenor, i gyfeiliant Tom, ciliodd y tarw yn hamddenol tua Gwaelod y Garth, ac yna rheddodd y ddeuawd tua thre am eu bywydau!

Cychwynnais yn ddiweddar ar drywydd y Bryantiaid, er mwyn cofnodi hanes y teulu a'u cyfraniad ar gyfer ein cymdeithas hanes lleol. Trwy hap a damwain, cwrddais ag un o'r llinach, sef Dr Colin Davies, yntau fel eraill o'i berthnasau, wedi etifeddu y ddawn gerddorol. Roedd Colin yn ymwybodol o'r rhan y chwaraewyd gan ei hynafiaid ym myd y delyn yng Nghymru, a hefyd wedi gallu cael gafael ar luniau rhai o'r cymeriadau – lluniau sydd heb weld golau dydd er dros gan mlynedd. Syndod mawr i mi oedd cael gweld am y tro cyntaf lun o John Bryant a Dic, fy Nhadcu, gyda'i gilydd tu fas i dafarn The Carpenter's yn perfformio yn yr awyr iach!

Yn fuan ar ôl dechrau'r gwaith ymchwil, darganfûm fod stori y Bryantiaid yn fwy nag yr oeddwn yn ei feddwl cynt. Doeddwn i ddim wedi sylwi pa mor nodedig oedd y telynorion yma yn eu hamser. Bûm o dan yr argraff mai Tom oedd yr un mwyaf blaenllaw o'r llwyth, o achos rwy'n cofio ei enw ef yn cael y clod a'r mawl mor aml. Wrth ddarllen ethyglau mewn papurau newydd o droad yr ugeinfed ganrif, daeth yn glir i mi fod John Bryant, ewythr Tom, yn llawer mwy adnabyddus yn ei gyfnod na'r nai. Mae John yn cael ei ddisgrifio mewn termau canmoliaethus a gloyw, hyd yn oed yn ei henaint.

Cafodd John ei eni ym mis Chwefror 1832 yn un o ddyffrynnoedd mwyaf prydferth De Cymru – Castellau ger

Llantrisant. Pan oedd yn dair oed, fe symudodd y teulu i Efail Isaf (siwrnai o dair milltir). Tafarnwr oedd ei dad a bu The Carpenter's Arms yn gartref i John am weddill ei oes. Ar ôl marwolaeth ei dad, William ei frawd oedd perchennog y dafarn, ac ar ôl William, ei nai Tom.

Yn ddeng mlwydd oed, fe gafodd John anrheg o delyn gan feddyg lleol o'r enw Harrison, dyn oedd wedi adnabod talent eithriadol y crwt ifanc. Ar ôl cyfnod o addysg gyfyngedig yn yr ysgol fach leol, aeth John i Gaerffili i barhau ei hyfforddiant ac yno cafodd wersi dan lygaid barcut Llywelyn Williams – mab yr enwog Sephania Williams (un o arweinyddion y Siartwyr). Wedi hynny, cafodd ei gymryd mewn llaw gan yr Athro Chatterton, un o



Tua 1900: John Bryant (Alawydd Glantaf) a Richard Wilkins (ysgubwr heol) yng ngardd tafarn y Carpenter's Arms.

feistri mwyaf blaenllaw oes Victoria.

Tra yr oedd John yn tyfu i fyny, roedd yn barod iawn i hyfforddi eraill i ganu'r delyn, ac ymhlith ei ddisgyblion roedd sawl glowr o'r ardal ddiwydiannol gyfagos. Yn ogystal â bod yn athro, roedd John yn gystadleuydd llwyddiannus mewn eisteddfodau hyd a lled y wlad. Un o'i fuddugoliaethau mwyaf nodedig oedd pan enillodd ar y delyn deires yn Eisteddfod y Fenni. Am flynyddoedd wedyn, ef oedd Telynor Swyddogol Pwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cafodd John wahoddiadau di-rif gan noddwyr adnabyddus yr oes megis Syr Watcyn Williams Wyn (Wynnstay), y Foneddiges Llanofar, y Barnwr Gwilym Williams (Maenor Meisgyn), a Henry Lewis (Greenmeadow). Gwahoddid ef yn gyson gan Arglwydd Tredegar i ddathliadau blynyddol Balaclafa. Eisoes yn ffefryn i'r Dug a'r Dduges Argyll, nid oedd neb yn synnu pan gafodd alwad i arddangos ei fedr ar y delyn deires o flaen y Brenin Iorwerth y seithfed yn Llundain.

John Bryan oedd cyfeilydd y cerddor enwog, Caradog, pan oedd yr ail yn canu'r fiolin mewn cyngherddau. Cawsant gymeradwyaeth orfoleddus am eu perfformiadau trwy Gymru benbaladr, ond am ei gyfraniad fel aelod o driawd enwog y bydd John yn cael ei gofio fwyaf. Patrwm y cyngherddau oedd cyfuniad o ddarlith, canu ac offeryn. Bu'r triawd yma, yn cynnwys y Parch Watcyn Wyn fel darlithydd; y meistrolgar Eos Dar fel canwr penillion ac Alawydd Glantaf (John ei hun) ar y delyn. Byddai'r triawd yn cyflwyno stôr



John Bryant yn cyfeilio ar y delyn o flaen y Carpenter's Arms yn gyfeiliant i Dic Llewellyn (tadcu'r awdur).